CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 20ed MEDI 2016

YN NEUADD GOFFA BODWROG

PRESENNOL:
Cyng E W Roberts, R R Roberts, J E Lewis, R M Roberts, H G Owen, E D Owen, J Evans, Cyng Sirol. D Rees, ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU:
Cyng T M Williams, D T Roberts, E Williams.

CAFWYD COFNODION MIS GORFFENNAF 2016 YN GYWIR

Cydymdeimlwyd a Cyng Sirol R G Parry yn ei brofedigaeth o golli ei wraig.

Cydymdeimlwyd a Cyng E Williams yn ei brofedigaeth o golli ei gefnder Parch W R Williams.

Pryder gyda parcio dros y ffordd i`r Ysgol ym Modffordd. Gofyn i Prifathro yr Ysgol gael gair a`r Rhieni, yn gofyn iddynt beidio a parcio a mynd i lon Talfryn. Damwain yn barod i ddigwydd.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. 14C150C. Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn:-
   Pen Rallt, Llynfaes.
   Dim gwrthwynebiad.

2. 14C250. Cais llawn ar gyfer dymchwel modurdy presennol ynghyd ac addasu ag ehangu:-
   Fron Wen, Llandrygarn.
   Dim gwrthwynebiad.

PENDERFYNIADAU:

3. 14C95C. Awel Deg, Llandrygarn. Caniatad.

4. 14C86B. Swn y Gwynt, Bodffordd. Caniatad.

5. 14C224B/VAR. Beudy Mwyn, Mynydd Mwyn, Llandrygarn. Canaitad.

6. 14C73G/VAR. Melin Caradog, Trefor. Caniatad.

7. 14C246. Tyn Llwyn Bodffordd. Caniatad.

GOHEBIAETH

8. Comisiwn Ffiniau i Gymru.
   a. Arolwg 2018 o Etholaeth Seneddol yng Nghymru cynygion cychwynnol.

PLWYFOL.

9. Arwyddbost "anaddas i dramwy trwm" ar lon Bodwrog wedi ei gadarnhau.

MATERION ARIANNOL:
Derbyniwyd y balans a talwyd y dyledion i gyd.